NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Triniaeth ffeibr laser sy'n allyrru'n rheiddiol ar gyfer ffistwla refrol

13 Mawrth 2019

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw wrth drin ffistwlâu rhefrol. Ond nid oes unrhyw bryderon diogelwch mawr. Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau, a hynny oherwydd y pryderon ynglŷn â'i effeithiau hirdymor a chymhlethdodau difrifol.

Twnnel bach sy'n ffurfio rhwng diwedd y coluddyn a'r croen ger yr anws yw ffistwla refrol. Gall achosi poen neu anesmwythder a gollwng gwaed neu grawn. Yn ystod y driniaeth hon, caiff y ffistwla ei lanhau a rhoddir ffeibr sy'n cynnwys laser i mewn i'r ffistwla. Caiff ynni laser ei allyrru o amgylch y ffeibr (yn rheiddiol) ac yna caiff y ffeibr ei dynnu yn ôl yn raddol. Y nod yw dinistrio'r ffistwla a'i selio.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3303-7



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.